CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| At: | Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Dyddiad: | 5 Rhagfyr 2012 |
|---|---|---|---|
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD IAU, 13 RHAGFYR 2012** am **10.00 am** yn **YSTAFELL GYNHADLEDD 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**3 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod yma.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf llywodraeth Leol, 1972

**5 DYNODI PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 3 - 6)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi'n amgaeëdig) am ddynodi 'pennaeth gwasanaethau democrataidd' y Cyngor er dibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**6 YMGYNGHORI AR GYDBWYLLGORAU CRAFFU AC ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN YR AELODAU** (Tudalennau 7 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi'n amgaeëdig) am Gydbwyllgorau Craffu ac Adroddiadau Blynyddol.

**7 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 31 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi'n amgaeëdig) am waith y pwyllgor i'r dyfodol.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

William Cowie
Stuart Davies
Martyn Holland
Gwyneth Kensler
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Gareth Sandilands

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Rhagfyr 2012** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams** |
| **Teitl:** | **Dynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

---

**1. Beth yw testun yr adroddiad?**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol ddynodi un o'i swyddogion i gyflawni ystod o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd. Mae'r swyddog a ddynodir i'w alw'n 'bennaeth gwasanaethau democrataidd'.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

I gydymffurfio gyda gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Canllawiau Statudol cysylltiol mewn perthynas â dynodi swyddog i gyflawni rôl statudol newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (PGD).

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Tîm Gweithredol Corfforaethol (CET) yn argymell i'r Pwyllgor bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn cael ei ddynodi fel 'pennaeth gwasanaethau democrataidd' y Cyngor er dibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**4. Manylion yr adroddiad.**

4.1 Yn y Cyfarfod Blynyddol ar 15 Mai 2012, penderfynodd y Cyngor mai aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd (sy'n ofynnol yn ôl y Mesur Llywodraeth Leol) fyddai 11 o gynghorwyr (gyda chydbwysedd gwleidyddol) heb gynnwys aelod o'r Cabinet. Un o ddyletswyddau'r pwyllgor yw dynodi'r PGD.

4.2 Mae dynodiad y PGD yn swydd statudol, o dan gyfyngiadau gwleidyddol, a rôl y person hwnnw yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn adran 9 y Mesur. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- Rhoi cymorth a chyngor (yn enwedig mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd)
- I'r Awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd
- I bwyllgorau'r Awdurdod ac aelodau pwyllgorau

- I unrhyw gydbwyllgor y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw
- Mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu, i holl Aelodau / Swyddogion
- I bob aelod o'r Awdurdod wrth iddo gyflawni rôl aelod
- Hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas ag adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd.

4.3 Ni chaiff y Cyngor ddynodi unrhyw un o'r canlynol yn PGD (adran 8 (4)):

- Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
- Swyddog Monitro
- Prif Swyddog Cyllid

4.4 Mae paragraff 3.18 o'r Canllawiau Statudol i Fesur 2011 yn nodi *'mewn llawer o achosion, bydd yna berson amlwg sydd eisoes yn cyflawni llawer o swyddogaethau'r Pennaeth GD. Byddai disgwyl i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig wneud argymhelliad i'r PGD (Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) ynglŷn â phwy fyddai'n ymgeisydd addas'*.

4.5 Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi dynodi eu PGD. Yn yr achosion sy'n hysbys, maen nhw wedi dewis y swyddog sy'n uniongyrchol gyfrifol am reoli gwasanaethau / pwyllgor democrataidd yn unol gyda'r Canllawiau Statudol. Mae hyn yn golygu nad oes dyblygu gwaith a hefyd yn osgoi gwrthdaro posibl rhwng y ddarpariaeth gwasanaeth a'r rolau statudol sydd i bob pwrpas yr un fath. Ymhellach, bydd modd osgoi unrhyw risg o ran dyblygu rolau, cyngor a llinellau rheoli o fewn y gwasanaeth. Er nad oes modd i'r Swyddog Monitro fod yn PGD, nid oes cyfyngiad ar gael y PGD yn adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddog Monitro.

4.6 Mae'r CET wedi ystyried pa swyddog y dylid ei ddynodi fel y PGD, ac wedi argymell mai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddylai lenwi'r swydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yn berthnasol – mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gofynion statudol.

**6. Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn nag o'r argymhelliad.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb?**

Yn unol gyda'r Canllawiau Statudol i Fesur 2011, ymgynghorwyd gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ac aelodau eraill o'r CET.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r dynodiad a gynigir yn cyflawni'r gofynion yn ôl y Mesur Llywodraeth Leol heb greu cost ychwanegol.

**9. Beth yw'r risgiau, ac a ellir gwneud unrhyw beth i'w lleihau?**

Bydd cynghori'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ddynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd yn cynorthwyo'r pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth statudol, a bwriedir i'r argymhelliad osgoi risgiau potensial all godi o ddyblygu rolau tebyg, ffynonellau cyngor a rheoli darpariaeth.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Rhagfyr 2012** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Ymgynghori ar Gydbwyllgorau Craffu ac Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae Adrannau 58 Mesur Llywodraeth Leol 2011 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ganiatáu dau awdurdod lleol neu'n fwy i benodi cydbwyllgor trosolwg a chraffu ac i gyhoeddi arweiniad statudol y mae'n rhaid i gydbwyllgorau trosolwg a chraffu eu hystyried wrth ymarfer ei swyddogaethau.

Mae Adran 5 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi arweiniad statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth wneud trefniadau i lunio adroddiadau blynyddol o dan adran 5.

## 2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer ymgynghori i gael safbwyntiau ar y Cydbwyllgorau Craffu (atodiad 1) a llunio Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau (Atodiad 2). Gall unrhyw safbwyntiau allai fod gan y Pwyllgor eu cyfnewid i Lywodraeth Cymru.

Bydd fersiwn o'r adroddiad hwn hefyd yn cael ei chymryd i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu heddiw (13 Rhagfyr) i gael sylwadau ar y trefniadau Craffu ar y cyd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar:

(a) yr Arweiniad Statudol drafft ar gyfer y Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu (atodiad 1),

(b) yr Arweiniad Statudol drafft ar gyfer Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau Awdurdod Lleol (atodiad 2); a'r

(c) broses i baratoi, cyflwyno a chyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Cydbwyllgorau Craffu

4.1 Mae'r Mesur yn rhoi'r grym i ddau awdurdod lleol neu'n fwy i ffurfio cydbwyllgorau craffu er mwyn cryfhau'r trefniadau craffu trwy hyrwyddo cydweithredu a rhannu arbenigedd craffu. Byddai'r cydbwyllgorau hefyd yn ei gwneud hi'n haws craffu gwasanaethau neu faterion sy'n torri ar draws ffiniau daearyddol.

4.2 Mae'r Arweiniad drafft yn rhoi enghreifftiau o achosion lle gallai cydbwyllgor fod yn briodol:

- Monitro parhaus o fecanwaith cyflwyno gwasanaeth ar y cyd;
- Ymchwilio i bwnc a allai ofyn am ymateb rhanbarthol (er enghraifft, rheoli gwastraff neu ddatblygu cynaliadwy);
- Rhannu adnoddau craffu i ymchwilio i bwnc tebyg o ddiddordeb uchel neu o bwysigrwydd uchel i fwy nag un awdurdod (ond nid o reidrwydd yn gofyn am ymateb ar y cyd / gan sawl awdurdod).

4.3 Rhaid nodi na all cydbwyllgor craffu ystyried y materion a ystyrir gan y 'Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn' (y Pwyllgor Craffu Partneriaethau) o dan y Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder 2006. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a materion trosedd ac anhrefn lleol fel ffurfiau o drosedd ac anhrefn sy'n cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol yn yr ardal a gynrychiolir gan aelod penodol, neu gamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill yn yr ardal honno.

4.4 Oherwydd y cymhlethdod ychwanegol wrth sefydlu a rhedeg pwyllgor craffu ar y cyd, mae'r Arweiniad yn argymell cwmpasu amlinellol i helpu penderfynu p'un ai i sefydlu cydbwyllgor ai peidio; ac i benderfynu a oedd angen pwyllgor ad-hoc neu sefydlog. Mae dull rheoli prosiect yn cael ei argymell yn gryf i sicrhau bod amcanion yn cael eu bodloni.

Adroddiadau Blynyddol

4.5 Mae'r Mesur yn gofyn i bob awdurdod lleol gael trefniadau i bob aelod lunio adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau yn eu rôl fel cynghorydd ac i gyhoeddi'r holl adroddiadau hynny; gyda'r trefniadau cyhoeddi'r un mor berthnasol i bob Aelod. Byddai gwefan Sir Ddinbych yn cael ei haddasu i gynnwys gwybodaeth am yr adroddiadau blynyddol a lle gellir mynd atynt.

4.6 Mae'r Arweiniad Statudol drafft yn galluogi awdurdodau lleol i osod cyfyngiadau ar gynnwys adroddiadau a ddylai fod yn ffeithiol ac yn debygol o ganolbwyntio ar gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau, hyfforddiant a datblygu. Dylai templed i'w ddefnyddio wrth gwblhau adroddiadau blynyddol gynorthwyo'r Aelodau wrth gwblhau eu hadroddiad gyda gwybodaeth briodol. Ar sail yr Arweiniad, gellir defnyddio'r meysydd canlynol fel prif benawdau templed:

- Rôl a chyfrifoldebau – i gynnwys manylion aelodaeth y pwyllgorau a chyrff allanol, cofnodion presenoldeb i'r rhain a chyngor llawn.
- Gweithgarwch lleol – manylion y cymorthfeydd a gynhaliwyd, y sylwadau a waned ar ran yr etholwyr a chanlyniadau'r rhain
- Prosiectau mawrion – rhan mewn mentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol.
- Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a gynhaliwyd, cynadleddau a seminarau a fynychwyd.

4.6 Gallai templed gael gwybodaeth safonol ar flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor sydd wedi'i gynnwys ar gyfer adroddiad pob aelod.

4.7 Gan fod rhai cyfyngiadau o ran beth ellir ei gynnwys mewn adroddiad blynyddol, bydd angen adolygiad neu gam golygu cyn cyhoeddi, er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn ufuddhau i'r Arweiniad Statudol ac unrhyw gyfyngiadau a osodir gan y Cyngor. Gofynnir am safbwyntiau'r Pwyllgor ar y broses i gwblhau a chyflwyno adroddiadau blynyddol, e.e. a oes gan arweinwyr grŵp rôl ai peidio i aelodau eu grwpiau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r materion yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad hwn yn ofynion statudol ond byddai'r bwriadau y tu cefn iddynt yn briodol i faes blaenoriaeth y Cyngor sef *Moderneiddio'r Cyngor i Gyflawni Effeithlonrwydd a Gwella Gwasanaethau i'n Cwsmeriaid.*

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd cefnogi cydbwyllgorau Craffu a llunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol gan aelodau yn arwain at waith ychwanegol i swyddogion cefnogol. Gallai hyn gael ei reoli gan gymorth a gymhellwyd gan broses gan mwyaf ar gyfer adroddiadau blynyddol ond bydd effaith cydbwyllgorau Craffu'n dibynnu ar raddfa a chwmpas y gweithgareddau.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill ac a gynhaliwyd Sgrin Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Bydd adroddiad ar gydbwyllgorau Craffu'n cael eu hystyried gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ym mis Rhagfyr. Ymgynghorwyd ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ar gynnwys yr adroddiad hwn.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel rhan o broses asesu'r cyngor bydd rhaid ystyried goblygiadau sefydlu a chefnogi pwyllgorau craffu ar y cyd. Bydd y broses o gefnogi'r broses o baratoi'r adroddiadau blynyddol yn ogystal â chymeradwyo cynnwys y cyhoeddiad yn anorfod yn arwain at ddefnyddio mwy o amser y swyddog. Bydd hyn yn arbennig o wir yn ystod y flwyddyn gyntaf. Fe ddylai'r gost o wneud hyn gael ei chynnwys o fewn yr adnoddau

presennol. Bydd angen fodd bynnag adolygu'r sefyllfa hon fel y mae'r broses yn datblygu.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Mae'r rhain yn ddarpariaethau statudol a bydd y gofynion gofynnol yn cael eu bodloni. Mae risg y gallai'r gofynion ychwanegol sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn yn arwain at lai o adnoddau i fod ar gael mewn mannau eraill (yn enwedig mewn perthynas â'r darpariaethau craffu)

## 10. Y Grym i wneud y Penderfyniad

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

# Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu
# Canllawiau Statudol Drafft a gyhoeddwyd o dan Adran 58 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

---

## Cyflwyniad

### Cefndir Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gwneud newidiadau ar gyfer cryfhau strwythurau a gwaith llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel, a bydd yn helpu i sicrhau bod cynghorau lleol yn ymgysylltu ac yn estyn allan at bob sector o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae'r ddogfen ganllawiau drafft hon yn cefnogi Rhan 6 o'r Mesur sy'n ymwneud â phwyllgorau trosolwg a chraffu, yn arbennig felly'r ddarpariaeth i alluogi dau awdurdod lleol neu fwy i sefydlu cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu.

### Bwriad y Polisi

Er bod rhai enghreifftiau arloesol o graffu ar y cyd wedi bod yng Nghymru, nid yw'r gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth gyfredol hyd nawr.

O ganlyniad, bu'n amhosibl craffu'n fanwl ar wasanaethau neu faterion sy'n croesi ffiniau siroedd neu sectorau, a hynny ar adeg pan fo awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn cydweithio fwyfwy.

Amcan adran 58 yw cryfhau trefniadau craffu drwy hyrwyddo cydweithio a rhannu arbenigedd ym maes craffu.

Trwy alluogi awdurdodau lleol i sefydlu cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu bydd hi'n haws craffu ar drefniadau cyflenwi darparwyr sy'n darparu gwasanaethau mewn mwy nag un sir, neu archwilio materion sy'n croesi ffiniau daearyddol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer craffu ar y cyd yn ymestyn y dewisiadau sydd ar gael i gynghorau ar hyn o bryd o ran craffu'n ehangach ar wasanaethau cyhoeddus, ac mae'n darparu ar gyfer dull gweithio mwy hyblyg er mwyn gwella canlyniadau.

Yn ogystal, lle bo ymarferion craffu ar y cyd wedi'u rhoi ar waith (gweler yr astudiaethau achos yn Atodiad A), maent wedi hwyluso cyfleoedd i rannu dysgu a gallu ym maes craffu ar draws awdurdodau lleol. Bydd gallu defnyddio gwybodaeth ar y cyd drwy gyfrwng y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu gobeithio yn arwain at ddulliau llywodraethu mwy effeithiol a safonau atebolrwydd democrataidd uwch.

Bwriad y ddogfen hon yw darparu cyngor a chanllawiau ar sefydlu a chynnal cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu. Canllawiau statudol ydynt o dan adran 58(4) o'r Mesur, ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ystyried y canllawiau hyn wrth weithredu neu benderfynu ar unrhyw swyddogaeth a roddwyd iddynt.

## Pam sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu?

## Amgylchiadau lle gallai Trosolwg a Chraffu ar y cyd fod yn effeithiol

**Beth yw manteision craffu ar y cyd?**

**Ar gyfer y rhai sy'n craffu**

Mae'r rhai sydd wedi cymryd rhan mewn ymarferion craffu ar y cyd yng Nghymru wedi nodi nifer o fanteision, gan gynnwys cyfle i gael cipolwg ar drefniadau craffu cynghorau eraill a dysgu ganddynt.

Er enghraifft, nodwyd bod cynghorwyr wedi cael cyfle i ystyried materion o safbwynt ehangach, gan arwain at archwiliad manylach o'r pynciau dan ystyriaeth.

Yn ogystal, mae presenoldeb cadeiryddion craffu gwahanol a chefnogaeth gan swyddogion craffu gwahanol wedi arwain at gyfleoedd i drosglwyddo dysgu a chyfnewid arfer da. Nodwyd hefyd bod ymarferion craffu ar y cyd wedi ysgogi aelodau a swyddogion i adolygu'n feirniadol a gwella dulliau mewnol a dulliau gwaith eu cyngor eu hunain, gan arwain yn y pen draw at godi safonau craffu.

Mae Atodiad A yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am ganlyniadau cadarnhaol gweithgareddau craffu ar y cyd.

**Manteision i Bartneriaid**

O safbwynt partneriaeth, mantais dull craffu ar y cyd yw ei fod yn rhoi cyfle i bobl eraill fwrw golwg ar ddatblygiadau gydol y broses o wneud penderfyniadau. Mae cydbwyllgorau trosolwg a chraffu yn gallu cyflwyno ffynonellau gwybodaeth newydd nad yw penderfynwyr wedi'u hystyried o bosibl wrth ddatblygu cynlluniau, polisïau a strategaethau.

Mae gan aelodau anweithredol wybodaeth leol helaeth ac maent mewn lle da i bwyso a mesur a yw blaenoriaethau a dulliau gweithredu partneriaethau yn addas i gymunedau lleol. Mae gan lawer o gynghorwyr gysylltiadau ag amrywiaeth o rwydweithiau cymdeithasol a grwpiau cymunedol a gallant eu defnyddio i gyflwyno safbwyntiau i'r broses o wneud penderfyniadau.

Yn ogystal, gall cydbwyllgorau trosolwg a chraffu helpu i leihau achosion o ddyblygu atebolrwydd ac adrodd drwy feithrin dull cydweithredol o ymdrin â'r pwnc dan sylw.

**Dewis pwnc priodol ar gyfer Trosolwg a Chraffu ar y cyd**

Bydd effeithiolrwydd cydbwyllgor trosolwg a chraffu yn dibynnu ar y rhesymau dros ei sefydlu a'r pwnc dan sylw. Er mwyn sicrhau ymrwymiad a diddordeb cyson y prif gynghorau perthnasol, mae'n rhaid i'r pwnc sy'n cael ei ystyried gan gydbwyllgor trosolwg a chraffu fod yn berthnasol i'r holl gyfranogwyr.

Fel oedd yn wir am waith craffu ar y cyd ar bartneriaethau ym maes rheoli gwastraff (gweler astudiaeth achos 1, Atodiad A), roedd pob un o'r pedwar awdurdod eisoes wedi cyfrannu at adolygiad o drefniadau rheoli gwastraff lleol. Roedd hyn wedi arwain

at gydnabyddiaeth y byddai dull gweithredu ar y cyd yn fwy effeithiol nag ymchwiliadau unigol.

Bydd y broses o nodi pwnc addas ar gyfer craffu ar y cyd yn dibynnu ar gynllunio blaenraglen waith effeithiol sy'n ceisio ystyried materion o fudd cyhoeddus ehangach, yn ogystal â phynciau sy'n berthnasol i ardal ddaearyddol benodol. Bydd angen i aelodau a swyddogion fod yn rhagweithiol wrth ystyried cyfleoedd ar gyfer craffu ar y cyd, gan wirio a yw blaenraglenni gwaith awdurdodau cyfagos neu berthnasol yn gydnaws â'u trefniadau hwy. Bydd prosesau rhwydweithio drwy ddigwyddiadau craffu rhanbarthol a chenedlaethol, a chyhoeddi blaenraglenni gwaith yn sicrhau bod gan ymarferwyr craffu fwy o wybodaeth yn y cyswllt hwn.

Gall sefydlu cydbwyllgor fod yn briodol ar gyfer:

- *Gwaith monitro parhaus ar ddull darparu gwasanaeth ar y cyd;*
- *Ymchwilio i bwnc sydd angen ymateb rhanbarthol o bosibl (er enghraifft, rheoli gwastraff neu ddatblygu cynaliadwy);*
- *Rhannu adnoddau craffu i ymchwilio i bwnc tebyg sydd o ddiddordeb neu bwysigrwydd mawr i fwy nag un awdurdod (er nad oes angen ymateb ar y cyd / aml-awdurdod o anghenraid).*

**Meini prawf ar gyfer sefydlu cydbwyllgor trosolwg a chraffu**

Wrth benderfynu a ddylid sefydlu cydbwyllgor trosolwg a chraffu ai peidio, gall pwyllgorau trosolwg a chraffu ystyried y cwestiynau canlynol:

1. **A yw'r pwnc dan sylw yn ymwneud â gwaith partner strategol neu gorff partneriaeth sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer mwy nag un ardal awdurdod lleol?** Er enghraifft, gall cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu ganolbwyntio ar waith darparwr cludiant, sefydliad trydydd sector neu fenter gymdeithasol berthnasol sy'n darparu gwasanaethau ar draws ffiniau awdurdodau.

2. **A yw'r mater neu'r gwasanaeth dan sylw yn effeithio ar drigolion mewn mwy nag un sir neu a yw'n ymwneud ag anghenion poblogaeth benodol?** Gall cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu ystyried pynciau thematig fel newid yn yr hinsawdd, tlodi tanwydd, tanau glaswellt neu ddiogelwch ar y ffyrdd; neu fe all ystyried gwasanaethau sy'n gysylltiedig â grwpiau buddiant penodol fel oedolion ifanc ag anableddau corfforol, mamau yn eu harddegau neu bobl hŷn sy'n agored i niwed.

3. **Pa fath o gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu y gellid ei gynnal yn rhesymol?** Mae'n rhaid i gynghorau perthnasol feithrin cysylltiadau a rhoi systemau gweithio a gweinyddu ar waith er mwyn sicrhau gwaith craffu ar y cyd effeithiol. Er mwyn sicrhau bod cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn gallu darparu gwerth ychwanegol sylweddol, mae'n rhaid i'r amcanion fod yn gymesur â'r adnoddau.

**Pwysigrwydd cwmpasu a rheoli prosiectau**

Dylid cynnal proses gwmpasu amlinellol i helpu i benderfynu a oes angen sefydlu cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu. Wrth nodi pa brosiectau partneriaeth i'w datblygu ac wrth ddewis methodoleg briodol, dylai ymarferwyr ystyried yn ofalus a fydd archwilio pwnc yn arwain at werth ychwanegol neu welliant ar gyfer pob cyfranogwr.

Er mwyn pwyso a mesur llwyddiant tebygol cydweithio, argymhellir yn gryf y dylid mabwysiadu dull rheoli prosiect i helpu i sicrhau bod amcanion gweithgareddau craffu ar y cyd yn cael eu cyflawni.

Dylai'r cyfranogwyr tebygol gynnal astudiaeth ddichonoldeb anffurfiol fel bod aelodau a swyddogion yn gallu llunio diffiniad mwy penodol o feysydd buddiant cyffredin, y math o swyddogaeth graffu arfaethedig, a faint o adnoddau y gellid eu neilltuo'n rhesymol i helpu cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu i weithredu'n effeithiol. Dylai'r gwaith rhagarweiniol hefyd nodi'r risgiau tebygol sy'n gysylltiedig â'r pwnc i'w graffu, a sut y bwriedir rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol.

Mae astudiaeth achos 2 yn trafod Cyngor Casnewydd a Chyngor Caerffili yn cydweithio i graffu ar Fwrdd Iechyd Lleol, gan roi mwy o wybodaeth am bwysigrwydd sicrhau bod amcanion cyffredin yn rhan o weithgarwch craffu ar y cyd.

**Swyddogaethau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu mewn ffordd hyblyg yn unol â'u hanghenion. Er enghraifft, gall cynghorau sefydlu cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ar sail ad hoc, a all fod yn fwy priodol ar gyfer mathau o graffu cyn gwneud penderfyniadau neu ymarferion ymgynghori; neu gall cynghorau benderfynu sefydlu cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu 'sefydlog' a fydd yn fwy defnyddiol o bosibl wrth fonitro gwasanaethau neu benderfyniadau dros y tymor canolig i'r hirdymor.

## Adran 2: Beth mae Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gallu ei wneud?

**Pwerau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu gael yr un pwerau â phwyllgorau trosolwg a chraffu eraill, fel y nodir mewn deddfwriaeth gyfredol, ac y byddai hyn yn cynnwys adolygu a chraffu ar benderfyniadau gweithrediaeth Cyngor nad ydynt wedi'u gweithredu eto ('galw i mewn').

Gall cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu lunio adroddiadau a gwneud argymhellion yn ymwneud ag unrhyw bwnc, ac eithrio materion trosedd ac anhrefn sy'n destun deddfwriaeth a chanllawiau ar wahân o dan adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Nid yw hyn yn rhwystro cynghorau rhag cydweithio ar faterion trosedd ac anhrefn. Yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Craffu ar Faterion sy'n ymwneud â Throseddu ac Anhrefn (Cymru), dylai cynghorau geisio cydgysylltu eu blaenraglenni gwaith i osgoi

dyblygu gwaith a helpu i sicrhau bod gweithgareddau craffu yn ategu ei gilydd lle bo hynny'n briodol.

Mae cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn gallu cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â materion a nodir gan yr awdurdodau sy'n eu penodi yn unig. Mae'n bwysig, felly, bod yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r cyd-bwyllgor yn nodi ei swyddogaethau, ei gyfrifoldebau a'i gylch gorchwyl yn glir o'r cychwyn.

O dan adran 58(3)(b), gall cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd sefydlu is-bwyllgorau yn yr un modd â phwyllgorau trosolwg a chraffu awdurdodau sengl. Mae'n bwysig nodi mai dim ond swyddogaethau a ddirprwywyd iddo gan y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu y byddai unrhyw is-bwyllgor yn eu cyflawni.

Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu i weithredu mewn ffordd fwy effeithlon a hyblyg wrth gyflawni nodau ac amcanion y rhiant gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu.

**Craffu Cyhoeddus Ehangach – Pwy sy'n gallu bod yn destun craffu?**

Mae adrannau 59, 60 a 61 o'r Mesur yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 i osod dyletswydd ar gynghorau i sicrhau bod eu trefniadau trosolwg a chraffu yn craffu ar wasanaethau darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd.

Wrth wneud gwaith craffu cyhoeddus ehangach, gall cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ei gwneud yn ofynnol i bersonau dynodedig, neu eu cynrychiolwyr, ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r materion dan sylw a mynychu cyfarfodydd pwyllgor ar gais.

Yn ogystal, os yw cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu neu is-bwyllgor yn llunio adroddiad neu'n gwneud argymhelliad ar gyfer unrhyw un o'r personau dynodedig, gall y pwyllgor anfon copi o'r adroddiad neu'r argymhellion at berson dynodedig a gofyn i'r person dynodedig ystyried yr adroddiad neu'r argymhellion.

Mae'n bwysig nodi y bydd unrhyw adroddiad neu argymhelliad yn cael ei gyflwyno ar ran y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn hytrach na'r awdurdod lleol, felly nid oes angen i'r weithrediaeth neu'r cyngor llawn gymeradwyo'r adroddiad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol rhannu copïau o adroddiadau gyda gweithrediaethau a chynghorau er mwyn sicrhau arferion cyfathrebu effeithiol a llywodraethu da.

Yn ymarferol, bydd y trefniadau adrodd ar gyfer cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn cael eu llywio gan y rhesymau dros sefydlu'r pwyllgor a'r canlyniadau disgwyliedig. Er enghraifft, fel rhan o'r prosiect craffu ar y cyd ar reoli gwastraff (gweler astudiaeth achos 1, Atodiad A), anfonwyd adroddiad ar ganfyddiadau ac argymhellion y panel craffu ar y cyd i bob un o bedair gweithrediaeth y cynghorau perthnasol.

O safbwynt gweithgareddau craffu ar y cyd yn ymwneud â pherfformiad partneriaethau strategol fel Byrddau Gwasanaethau Lleol, gall fod yn briodol i'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu anfon un adroddiad yn unig i'r corff sy'n gwneud penderfyniadau yn y bartneriaeth dan sylw.

Un ffactor pwysig i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ei ystyried wrth benderfynu ar drefniadau adrodd yw'r angen i ddatblygu perthynas waith adeiladol â grwpiau gweithredol darparwyr gwasanaethau sy'n destun craffu. O ganlyniad, awgrymir y dylai cadeiryddion cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu gyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolydd gweithredol priodol i drafod blaenoriaethau, dulliau gweithredu a meysydd gwaith arfaethedig.

**Diffinio "personau dynodedig"**

Bydd Gorchymyn a gyhoeddir maes o law yn dynodi'r sefydliadau a'r unigolion a fydd yn destun craffu. Mae Adran 61 o'r Mesur yn nodi'r amodau sy'n diffinio pa unigolion a sefydliadau y gellir eu hystyried yn "berson dynodedig" neu'n "gategori personau" gan bwyllgorau craffu wrth ddefnyddio eu pwerau o dan Adran 59.

Mae Adran 61 yn datgan bod yn rhaid i'r unigolion neu'r cyrff sydd, drwy Orchymyn, yn gallu cael eu hystyried yn "berson dynodedig" neu'n "gategori o bersonau", ddarparu gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau o unrhyw fath (boed am dâl ai peidio) ar gyfer y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r unigolyn neu'r sefydliad gyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, neu gael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan arian cyhoeddus.

**Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Galw i Mewn**

Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu gyflawni unrhyw swyddogaethau llunio adroddiadau ac argymhellion sy'n perthyn i bwyllgorau trosolwg a chraffu sydd â phwerau 'galw i mewn'.

O safbwynt galw i mewn, bwriedir rhoi'r gallu i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu argymell bod penderfyniad gweithredol sydd wedi'i wneud ond heb ei weithredu gan gyngor perthnasol yn cael ei ailystyried gan y person(au) a'i gwnaeth, neu fod trefniadau'n cael ei wneud i'r Cyngor weithredu'r penderfyniad.

Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn yn erbyn camddefnydd posibl, dylai cynghorau ystyried ddatblygu gweithdrefnau sydd ond yn caniatáu i'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu alw penderfyniad gweithredol un o gynghorau'r cyd-bwyllgor i mewn os yw cyfran gyfartal o'r Cynghorau perthnasol yn cefnogi hynny.

Er bod y dull gweithredu uchod wedi'i awgrymu i helpu i sicrhau uniondeb y swyddogaeth alw i mewn o safbwynt cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y mater hwn yn y pen draw fel rhan o'u trefniadau cyfansoddiadol. Er mwyn helpu i ddatblygu'r cyfryw drefniadau, awgrymir y dylai nifer yr Aelodau sydd ei angen i gychwyn proses alw i mewn fod yn hanner cyfanswm aelodaeth y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu o leiaf.

Dyma enghraifft ffug i egluro'r sefyllfa.

Mae Cynghorau A, B ac C yn awyddus i gydweithio i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd. Sefydlir Cyd-bwyllgor sy'n cynnwys aelodau gweithredol pob Cyngor. Mae cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn cael ei sefydlu hefyd i ddarparu trefniadau

llywodraethu. Mae aelodau'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn cynnwys aelodau anweithredol o'r tri chyngor.

Mae penderfyniad yn cael ei wneud ond nid ei weithredu wedyn gan weithrediaeth pob cyngor. Fodd bynnag, mae aelodau anweithredol Cyngor A yn credu y gall penderfyniad y tair gweithrediaeth roi cymunedau lleol Cyngor A o dan anfantais. Felly mae Cyngor A yn awyddus i alw penderfyniadau'r tri chyngor perthnasol i mewn.

Yn yr achos hwn, ni allai'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu alw penderfyniadau gan weithrediaeth Cynghorau B neu C i mewn oni bai bod y weithdrefn alw i mewn yn cael ei chefnogi gan nifer cyfartal o aelodau o Gynghorau A, B ac C.

Er mwyn gallu galw penderfyniad gweithredol gan un o'r cynghorau perthnasol i mewn mae'n rhaid cael cydsyniad hanner cyfanswm aelodaeth y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu. Mae'n rhaid i'r hanner hwnnw gynnwys niferoedd cyfartal o bob cyngor perthnasol. Yn yr enghraifft uchod, os oes gan y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu gyfanswm o ddeuddeg aelod (pedwar aelod o bob Awdurdod), ni ellir galw'r penderfyniad i mewn heb gefnogaeth o leiaf dau aelod o bob Awdurdod (cyfanswm o chwech).

Os yw cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn awyddus i alw penderfyniad gweithredol gan Gynghorau B ac C i mewn, byddai'n syniad da i bob cyngor perthnasol gynnal proses alw i mewn ar wahân. Nid yw hynny'n golygu na allai dwy broses alw i mewn gydredeg, ond mae'n cydnabod y byddai'n rhaid i bob cyngor perthnasol ailystyried penderfyniad gweithredol ar sail unigol.

## Adran 3 – Sut bydd yn gweithio? Sicrhau manteision craffu ar y cyd

---

**Penodi Cyd-bwyllgor**

Wrth sefydlu cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu sy'n ategu pwyllgor(au) craffu presennol y cyngor, dylai adroddiad sy'n nodi swyddogaeth, cyfrifoldebau a chylch gorchwyl y cyd-bwyllgor ynghyd â chanlyniadau arfaethedig yr ymarferiad ar y cyd gael ei ystyried gan bwyllgor (neu is-bwyllgor) craffu priodol pob awdurdod perthnasol cyn i'r cyngor llawn ei gymeradwyo.

Y pwyllgor (neu is-bwyllgor) craffu priodol yw'r pwyllgor â'r cylch gorchwyl mwyaf perthnasol i'r pwnc y bwriedir i gydbwyllgor trosolwg a chraffu ei ystyried. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau anweithredol o bob awdurdod lleol yn gallu cyfrannu at y penderfyniad i sefydlu cyd-bwyllgor a sicrhau y byddai cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn ychwanegu gwerth ac na fyddai'n dyblygu rhaglenni gwaith sydd eisoes yn bodoli.

O safbwynt cylch gwaith cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu, dylid cofio bod deddfwriaeth bresennol yn ymwneud ag adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 yn eithrio unrhyw fater y gellid ei ystyried gan Bwyllgor Trosedd ac Anhrefn o raglenni gwaith pob pwyllgor craffu, is-bwyllgor craffu a chydbwyllgor trosolwg a chraffu arall.

**Pwy ddylai fod yn aelodau o Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu?**

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried yn ofalus pwy i benodi i fod yn aelodau o gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu. Mewn rhai achosion, gall fod yn fanteisiol penodi aelodau sydd eisoes yn gwasanaethu ar bwyllgor craffu â chylch gorchwyl tebyg i'r pwnc a fydd yn destun craffu neu gylch gorchwyl y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu arfaethedig. Fodd bynnag, wrth geisio manteisio ar arbenigedd a sylfaen wybodaeth grŵp ehangach o aelodau anweithredol, mae'n bosibl nad hwn fydd y cam gweithredu mwyaf priodol, a'r awdurdodau lleol fydd yn penderfynu pa aelodau ddylai gael eu penodi i'r pwyllgorau amrywiol.

Er mwyn sicrhau bod cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn cynrychioli buddiannau pob awdurdod lleol yn deg, argymhellir neilltuo'r un nifer o seddau ar y pwyllgorau i bob un o'r cynghorau perthnasol. Er y byddai hynny'n dibynnu ar awdurdodau mawr yn cytuno i gael yr un nifer o aelodau ag awdurdodau bach, ymddengys mai dyna sydd orau er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol.

Bydd rhaid i gynghorau geisio sicrhau bod cynrychiolaeth aelodau ar gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y pwyllgor craffu perthnasol hyd ag y bo modd. Gall cynrychiolaeth o awdurdod gynnwys aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw sydd naill ai'n statudol neu sydd wedi cael hawliau pleidleisio o dan Reoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009.

Gall y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd benderfynu cyfethol aelodau i ategu cynrychiolaeth pob cyngor.

O safbwynt maint cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu, mae arferion da yn awgrymu na ddylid penodi mwy nag 16 o aelodau er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol. Fodd bynnag, penderfyniad ar gyfer awdurdodau lleol yw hwn yn y pen draw gan ei fod yn dibynnu ar natur y pwnc i'w ystyried.

**Cadeirio Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Mae'n rhaid i gadeirydd cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu gael ei ethol o blith aelodau'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, a dylid ethol y cadeirydd yn ystod cyfarfod cyntaf y Pwyllgor. Gall cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu sy'n cael eu sefydlu ar gyfer yr hirdymor benderfynu newid eu cadeirydd bob blwyddyn, neu ar ryw adeg arall, er mwyn sicrhau statws cyfartal i bob awdurdod perthnasol a darparu cyfleoedd i ddatblygu aelodau.

Mae ymarferion craffu blaenorol yng Nghymru wedi dangos ei bod hi'n ddefnyddiol penodi cadeiryddion bob yn ail o blith aelodau'r awdurdodau lleol perthnasol. Yn y cyswllt hwn, gall cynghorau ystyried penodi is-gadeiryddion (os yn berthnasol) i gynorthwyo aelodau'r awdurdodau a fydd yn gwasanaethu fel y cadeirydd nesaf. Byddai hyn yn caniatáu elfen o ddilyniant o safbwynt trefniadau ar y cyd ac yn ehangu profiad yr aelodau sy'n cymryd rhan.

**Cymorth gan swyddogion ar gyfer cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu**

Os yw cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn cael ei sefydlu, awgrymir y dylai'r awdurdodau perthnasol rannu'r costau sy'n gysylltiedig ag ymarferion craffu ar y cyd.

Dylai hyn gynnwys trefniadau ar gyfer cymorth ac ymchwil swyddogion, yn ogystal â chymorth gweinyddol a darparu lleoliadau cyfarfodydd.

Gall pob prif gyngor benderfynu cynnig gwahanol fathau o gymorth gan swyddogion craffu mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu. Er enghraifft, gall rhai cynghorau benderfynu cynnig cymorth gweinyddol, a gall eraill gynnig arbenigedd ymchwil a chynghori. Dylid ystyried sut y gallai'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu gyflawni ei amcanion craffu yn y ffordd fwyaf effeithiol a sut y gellid codi safon craffu gan gynnwys trwy bob awdurdod yn dysgu ar y cyd.

Gan fod cymorth gan swyddogion ar gyfer craffu yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, mae'n debyg y bydd angen i swyddogion cymorth craffu'r cynghorau perthnasol gydweithio'n rheolaidd er mwyn cydgysylltu a rheoli gwaith y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu, ac ystyried sut i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Wrth benderfynu ar drefniadau cymorth ar y cyd, mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys y gallu craffu sydd ar gael ac i ba raddau y mae arbenigedd a sgiliau swyddogion yn gysylltiedig â'r pwnc/pynciau a nodir ar gyfer craffu ar y cyd.

Gall cynnal cyfarfodydd rheolaidd helpu i oresgyn unrhyw anawsterau o safbwynt cysoni diwylliannau, methodolegau a mecanweithiau cymorth gwahanol ar gyfer craffu, a bydd yn helpu i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo sgiliau a dysgu. Dylai swyddogion a chadeiryddion craffu enwebu Swyddog Cydgysylltu ar gyfer y cyd-bwyllgor o blith eu haelodau eu hunain er mwyn sicrhau bod unigolyn cyswllt clir ar gael i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch ar y cyd.

Argymhellir y dylai'r rhai sy'n cefnogi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ddarparu cyfleoedd myfyrio ar adegau allweddol (er enghraifft, yng nghanol y tymor) fel rhan o gylch oes adolygiadau craffu. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr awdurdodau perthnasol yn fodlon â'r trefniadau cymorth ac o'r farn eu bod yn fuddiol o safbwynt cyflawni amcanion y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu.

Gall trefniadau cymorth craffu gynnwys newid lleoliad cyfarfodydd cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal ym mhob un o'r awdurdodau lleol sy'n cael eu cynrychioli ar y cyd-bwyllgor. Fodd bynnag, gall y pwyllgor benderfynu cyfarfod yn ardal yr awdurdod sy'n fwyaf canolog yn ddaearyddol er mwyn lleihau amseroedd teithio.

**Blaen-gynllunio**

Er mwyn gweithredu'n effeithiol, dylai cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu lunio blaengynllun i nodi pa faterion y mae'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod blwyddyn neu oes ei fodolaeth.

Dylai'r blaengynllun ddarparu sail resymegol glir ynglŷn â diben ystyried y pwnc penodol a pha ddulliau a ddefnyddir i ymchwilio iddo. Dylid ceisio datblygu blaengynllun sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar brosesau.

Mae modd sefydlu cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ad hoc neu sefydlog, felly bydd yn bwysig sicrhau bod blaengynllun y cyd-bwyllgor yn cyd-fynd â'i ddiben gwreiddiol. Er enghraifft, os yw sawl awdurdod yn awyddus i sefydlu cyd-bwyllgor trosolwg a

chraffu i ymchwilio i fater trawsbynciol fel camddefnyddio sylweddau, dylai'r blaengynllun weithredu fel cynllun prosiect yr ymchwiliad gan fod angen diffinio dechrau a diwedd yr ymchwiliad yn glir.

Os yw cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu wedi'i sefydlu i ystyried gwaith partneriaeth strategol, dylid seilio'r blaengynllun ar dystiolaeth o angen cymunedol a dealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau, risgiau a phwysau ariannol y bartneriaeth. Yn ogystal, dylai blaengynlluniau cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu gael eu cytuno mewn ymgynghoriad â phartneriaid os yn bosibl.

Mae'n rhaid i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ystyried canllawiau yn ymwneud ag adran 62 o'r Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r canllawiau yn darparu cyngor ymarferol ar sut mae cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn gallu cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan adran 62 drwy ystyried yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, a sicrhau bod eu blaengynlluniau yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol fel bod grwpiau ac unigolion â buddiant yn gallu cynnig sylwadau a safbwyntiau.

**Penodi is-bwyllgor cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu**

Ar ôl i'r Rheoliadau a  wnaed o dan Adran 58(3) (b) gychwyn, bydd cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn gallu penodi is-bwyllgorau. Mae'r ddarpariaeth hon yn ehangu ystod y dewisiadau sydd ar gael i gydbwyllgor trosolwg a chraffu allu ymchwilio yn effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant mewn perthynas â materion sydd er budd y cyhoedd neu sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

Fel sy'n wir am is-bwyllgorau a benodwyd gan bwyllgorau craffu awdurdod unigol, dim ond swyddogaethau a ddirprwywyd iddynt gan y rhiant gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu y mae is-bwyllgorau cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn gallu eu cyflawni. Er mwyn sicrhau tegwch a dulliau gweithio effeithiol, dylai is-bwyllgor cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu gynnwys yr un nifer o gynrychiolwyr o bob awdurdod perthnasol os yn bosibl.

**Dulliau Gwaith**

**Noder nad yw cynnwys yr adran ganlynol yn ganllawiau statudol ond mae wedi'i chynnwys fel dull gwaith posibl i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ei ystyried**

**Grwpiau Gorchwyl a Gorffen**

Mae aelodau etholedig sydd wedi gwasanaethu ar grwpiau gorchwyl a gorffen pwyllgorau craffu awdurdodau unigol wedi nodi bod sawl mantais yn deillio o weithio mewn timau bach, mwy strwythuredig. Er enghraifft, mae aelodau â lefelau gwahanol o brofiad craffu a gwybodaeth am y pwnc yn gallu magu hyder a chymhelliant drwy gydweithio â chynghorwyr ac aelodau cyfetholedig mwy profiadol. Yn yr un modd, gall gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol â chymheiriaid wrth i aelodau gydweithio tuag at nod cyffredin.

Os yw cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn awyddus i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn ystyried pwnc penodol yn fanylach, awgrymir y dylai gyfyngu aelodaeth grŵp gorchwyl a gorffen i gynnwys unrhyw aelodau cyfetholedig y mae'r cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu am eu penodi.

Gan ddibynnu ar natur y pwnc dan sylw, gall ymchwiliadau grwpiau gorchwyl a gorffen cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu fod yn 'llai manwl', lle mae modd nodi argymhellion yn gymharol gynnar a phennu amser penodol, neu fod yn ymchwiliadau dwys iawn sy'n cynnwys amrywiaeth o 'Dystion Arbenigol', ymweliadau â safleoedd a chomisiynu gwaith ymchwil ategol, fel sy'n wir ar hyn o bryd am y rhan fwyaf o bwyllgorau trosolwg a chraffu.

Mae gan grwpiau gorchwyl a gorffen oblygiadau sylweddol o safbwynt adnoddau yn aml, ac oherwydd hyn awgrymir y dylai cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ystyried yn ofalus faint o grwpiau gorchwyl a gorffen y gellir eu cynnal a'u cefnogi yn effeithiol ar unrhyw adeg.

Er mwyn sicrhau bod grŵp gorchwyl a gorffen cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn cyflawni ei amcanion, argymhellir mabwysiadu dull rheoli prosiect. Dylai hyn gynnwys datblygu brîff prosiect ar gyfer gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen, creu cynllun prosiect a llunio adroddiadau ar y prif bwyntiau ar gyfer y rhiant gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad yr ymchwiliad.

## *Sicrhau'r manteision mwyaf a'r gwastraff lleiaf*

### Astudiaeth Achos 1: Craffu ar y Cyd ar Bartneriaethau ym maes Rheoli Gwastraff

Ar ôl derbyn gwobr gan Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn 2008 am graffu ar y cyd ar eu partneriaethau ym maes rheoli gwastraff, llwyddodd y pedwar awdurdod a gymerodd ran (Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) i gefnogi aelodau etholedig i gydweithio i fynd i'r afael â mater cymhleth a oedd yn gyffredin iddynt.

Diben yr ymchwiliad oedd ystyried y manteision a'r heriau o ddarparu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer gweithgareddau gwastraff gweddilliol mewn lleoliad rhanbarthol.

Gan fod yn sensitif i brofiadau craffu amrywiol pob cyfranogwr a'r gwahanol ddiwylliannau sefydliadol a gwleidyddol, manteisiodd yr Aelodau a'r Swyddogion i'r eithaf ar y budd a ddaw o gyfuno cryfderau unigol trwy ddulliau a ffyrdd o weithio a ystyriwyd yn ofalus. I'r diben hwn, trwy gynnal ymweliadau safle i ganfod arferion gorau, llwyddwyd i gynnwys Aelodau yn y broses drwyddi draw gan helpu i ddod â phawb at ei gilydd a chreu 'ymdeimlad o dîm'.

Un o ganlyniadau allweddol yr ymchwiliad oedd sicrhau'r ewyllys wleidyddol angenrheidiol er mwyn i bob cyngor ymuno â'r bartneriaeth wastraff ffurfiol. Cynhyrchodd sail dystiolaeth eang y prosiect lwybr clir ar gyfer y cynghorau a oedd yn cymryd rhan; sef, na ellid gwadu'r manteision o weithio mewn partneriaeth wrth ymdrin â gwastraff ac y gallai cydweithio ddarparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd am lai o gost.

Felly argymhellodd pob pwyllgor craffu i'w Weithrediaeth y dylai'r pedwar cyngor barhau i gydweithio er mwyn sicrhau ateb rhanbarthol wrth reoli gwastraff. Mewn gwirionedd roedd hyn yn golygu bod angen i hanner cant o aelodau craffu o bedwar awdurdod gytuno ar un set o argymhellion i'w hanfon at eu Gweithrediaeth berthnasol. Dyma un o'r troeon cyntaf erioed yng Nghymru i aelodau etholedig roi eu hamrywiaeth ddiwylliannol o'r neilltu i ddatblygu perthynas waith gynhyrchiol ar sail dealltwriaeth, ewyllys da a dull pragmataidd o reoli prosiect.

O ganlyniad, mae'r argymhellion hyn wedi arwain at greu'r bartneriaeth Prosiect Gwyrdd ranbarthol sydd wedi ymrwymo i ganfod yr ateb amgylcheddol, cost-effeithiol ac ymarferol gorau ar gyfer gwastraff ar ôl sicrhau cymaint o ailgylchu a chompostio â phosib ym mhob ardal. Mae mwy o wybodaeth am y Prosiect Gwyrdd yn y ddolen ganlynol http://www.caerphilly.gov.uk/prosiectgwyrdd/.

## *Craffu ar y Cyd – Gwella iechyd cysylltiadau partner*

### Astudiaeth achos 2: Effaith economaidd Caffael y GIG: Astudiaeth o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

> *"Doedd e ddim yn teimlo fel 'craffu', ond yn fwy fel partneriaeth"* -
>
> Rheolwr Craffu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn siarad am ei brofiad o'r broses o

graffu ar y cyd.

Yn 2009 llwyddodd Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i sicrhau cyllid o Gronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Cymru er mwyn cynnal prosiect ar y cyd i adolygu prosesau caffael lleol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (ABHB).

Nod y prosiect oedd defnyddio ABHB fel astudiaeth achos i archwilio effaith bosib caffael lleol ar yr economi leol a dysgu o arferion da a rhannu canfyddiadau'r prosiect â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus yng Ngwent.

Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol, comisiynwyd Ysgol **Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol ac Uned Ymchwil Economi Cymru Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd i wneud ymchwil ar ran y ddau Gyngor**.

Gweithredodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys Cynghorwyr o Gasnewydd a Chaerffili fel Bwrdd y Prosiect a chydnabuwyd cydweithrediad ABHB a gytunodd i gymryd rhan yn y prosiect er gwaethaf prosesau ad-drefnu diweddar cyn Ymddiriedolaeth a Byrddau Iechyd Lleol Gwent. Cymerodd uwch gynrychiolwyr y GIG ran ym mhob cam o'r prosiect er mwyn sicrhau bod yr argymhellion terfynol yn berthnasol a realistig. Roedd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod partneriaid yn cael y cyfle i ddylanwadu ar y prosiect a nodi pa fanteision oedd yn debygol o ddilyn o ganlyniad i'w cyfraniad.

Wrth gyflwyno eu hadroddiad i gyfarfod terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, pwysleisiodd y tîm ymchwil arwyddocâd y prosiect a'i berthnasedd nid yn unig i'r GIG ond hefyd i'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn gyffredinol. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn awyddus i sicrhau y dylai'r adroddiad gael ei ddosbarthu mor eang â phosib er mwyn rhannu canfyddiadau a chanlyniadau'r adroddiad. Nododd ABHB yr hoffent rannu'r adroddiad ag ymarferwyr caffael o Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd eraill yng Nghymru a Chyflenwadau Iechyd Cymru.

Wrth ystyried eu profiad o'r prosiect craffu, adroddodd ABHB fod y broses yn rhywbeth roedden nhw'n falch o fod yn rhan ohoni er lles tryloywder a didwylledd. Adroddwyd ei bod yn ddefnyddiol fod ABHB yn ymdrin â dim ond un Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r ddau gyngor ar y cyd yn hytrach na dau grŵp ar wahân.

Mae'r pwyntiau i'w dysgu o'r prosiect yn cynnwys yr angen i farchnata manteision ymarferion craffu ar y cyd i'r partneriaid hynny sy'n destun ymchwil a gwerthuso. Yn y cyswllt hwn, roedd hefyd yn bwysig bod yna bwnc perthnasol a buddiol i'w archwilio gyda phartneriaid gan sicrhau bod y ddwy ochr a gymerodd ran wedi bod ar eu hennill.

## Pwyntiau i'w Dysgu o'r broses Craffu ar y Cyd

### Astudiaeth Achos 3: Prosiect Gwyrdd

Gan adeiladu ar y manteision a gafwyd o waith craffu ar y cyd ar bartneriaethau ym maes rheoli gwastraff, sefydlodd Caerdydd, Casnewydd, Sir Fynwy, Caerffili a Bro Morgannwg Banel Craffu ar y cyd i fonitro'r penderfyniadau a wnaed gan Gydbwyllgor y Prosiect Gwyrdd. Am fwy o wybodaeth am y Prosiect Gwyrdd, ewch i http://www.caerphilly.gov.uk/prosiectgwyrdd/

Prosiect ar y cyd yw'r Prosiect Gwyrdd sy'n ceisio canfod yr ateb amgylcheddol, costeffeithiol ac ymarferol gorau ar gyfer gwastraff, ar ôl sicrhau cymaint o ailgylchu a chompostio â phosibl ym mhob ardal. Y corff penderfynu sy'n rheoli proses gaffael y Prosiect yw'r

Cyd-bwyllgor ac mae'n cynnwys dau Aelod Gweithredol o bob Awdurdod.

Ystyrir craffu cyhoeddus yn rhan hanfodol o sicrhau bod Prosiect Gwyrdd yn parhau i fod yn effeithiol ac atebol. Felly, mae trefniadau wedi'u cyflwyno i ddarparu cyfle i Gynghorwyr Anweithredol ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol a wneir gan y cyd-bwyllgor a bwrdd y prosiect, a herio'r penderfyniadau hynny.

Rhoddwyd y trefniadau hyn ar waith ym mis Rhagfyr 2009, pan gynhaliwyd cyfarfod rhwng Cynghorwyr y pum awdurdod a chynrychiolwyr Prosiect Gwyrdd i rannu syniadau ar y meini prawf gwerthuso a fyddai'n cael eu defnyddio yn y broses gaffael. Yn dilyn y gwaith cynnar hwn, rhoddwyd mwy o drefniadau ffurfiol ar waith a sefydlwyd Panel Craffu ar y Cyd.

Mae'r manteision a nodwyd hyd yma'n cynnwys cryfhau cysylltiadau rhwng aelodau etholedig y cynghorau sy'n cymryd rhan ac ymgysylltu gwell â Swyddogion Rheoli Gwastraff y Prosiect Gwyrdd. Mae hyn wedi arwain at hysbysu Aelodau'n iawn am unrhyw waith a wneir gan y Cyd-bwyllgor er mwyn gwella'u heffeithlonrwydd i 'gadw cydbwysedd' wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r pwyntiau dysgu sydd wedi codi o'r prosiect yn cynnwys dealltwriaeth glir o rôl craffu a manteision llinellau adrodd clir. Wrth i'r prosiect ddatblygu, mae trefniadau rhaglennu gwaith a chymorth gwell wedi'u rhoi ar waith, gan ychwanegu at y posibilrwydd o sicrhau craffu llwyddiannus.

**Astudiaeth Achos 4: Cymorth gan Swyddogion ar gyfer craffu ar y cyd**

Daeth y Partneriaethau Craffu ar y Cyd ym Maes Rheoli Gwastraff y cyfeirir atynt yn flaenorol yn astudiaeth achos 1 â phedwar pwyllgor craffu ynghyd o wahanol Gynghorau i archwilio i fanteision a heriau darparu gweithgareddau gwastraff gweddilliol ar y cyd mewn lleoliad rhanbarthol.

Er mwyn rheoli'r prosiect yn effeithiol, nododd Cyngor Sir Caerdydd brif Swyddog Craffu o blith aelodau ei Dîm Craffu. Nodwyd wrth randdeiliaid bod cael un pwynt cyswllt ar gyfer y pedwar awdurdod a oedd yn cymryd rhan yn ffactor pwysig i sicrhau bod ffrydiau gwaith a gweithgareddau'n cael eu cydgysylltu'n dda a bod rhanddeiliaid yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gynnydd.

Er ei bod yn werthfawr cael unigolyn i ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth cyson mewn cyfarfodydd craffu ar y cyd, roedd rolau unigol Swyddogion Craffu o'r awdurdodau a oedd yn cymryd rhan hefyd yn annatod i lwyddiant yr ymchwiliad.

Ar ddechrau'r prosiect, sylweddolodd Swyddogion yn gyflym y byddai angen rhoi gofal ac amser i sicrhau nad oedd gwahaniaethau sefydliadol a diwylliannol yn dod yn rhwystr. Yn sgil hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddogion Craffu'r pedwar Cyngor i drafod strategaethau a fyddai'n annog cyfranogiad a chymorth eu Haelodau Etholedig perthnasol. Adroddwyd y dylid gwerthfawrogi'r elfen hon o graffu ar y cyd o ran ei phwysigrwydd i gyflawni'r gwerth ychwanegol o gydweithio effeithiol. Nodwyd bod sicrhau cyfranogiad aelodau ym mhob cyfnod o'r prosiect yn hollbwysig er mwyn sicrhau ei fod yn datblygu'n llwyddiannus.

O ran cytuno ar argymhellion y prosiect, cyflwynwyd adroddiad ar y canfyddiadau i gyd-bwyllgor o'r Panel. Yn sgil hynny, cytunodd Aelodau ar argymhellion a oedd yn seiliedig ar y sail dystiolaeth a gasglwyd o ganlyniad i'r ymchwiliad.

Roedd y mecanweithiau a ddefnyddiwyd gan y tîm o Swyddogion Craffu i gydgysylltu'r

prosiect wedi sicrhau lefelau uchel o gyfathrebu a gwaith tîm a sicrhaodd bod yr holl gynghorau a gyfranogodd yn cytuno ar yr argymhellion a'r adroddiad terfynol.

**Astudiaeth Achos 5: Fframwaith Partneriaethau Sir Ddinbych**

Llwyddodd Cyngor Sir Ddinbych, ar y cyd â Chynghorau Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chonwy, i sicrhau cyllid gan Gronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Cymru yn 2008/09 a defnyddiwyd y cyllid hwn i gydgomisiynu pecynnau hyfforddiant wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer aelodau craffu.

Defnyddiwyd rhan o'r cyllid a dderbyniwyd i gomisiynu cwrs hyfforddi pwrpasol ar sut i graffu'n effeithiol ar bartneriaethau a threfniadau cydweithio. O ganlyniad i'r digwyddiadau hyfforddi, lluniwyd y 'Canllawiau ar gyfer Craffu Cyrff Traws-sefydliadol, Partneriaethau a Threfniadau Cydweithio'.

Mae'r fframwaith yn adeiladu ar y 'saith ffactor llwyddiannus ar gyfer craffu' a nodir yn Nodyn Cyngor Llywodraeth Cymru, 'Craffu Ehangach a Gweithio mewn Partneriaeth' ac mae'n darparu meini prawf defnyddiol y gellir eu defnyddio i helpu i nodi pa bartneriaethau i'w craffu. Mae manylion pellach y Canllawiau a'r Fframwaith ar gyfer Craffu Partneriaeth ar gael yn adran 'The Vault' gwefan Scrutiny Timebank yn www.scrutinytimebank.co.uk

Mae'r fframwaith hefyd yn darparu templed defnyddiol y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer protocol rhwng Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a phartneriaeth gan ei fod yn rhoi manylion y materion ymarferol a fydd yn wynebu aelodau, swyddogion a phartneriaid.

Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod craffu partneriaethau yn faes sydd angen ei wella a, thrwy sefydlu Pwyllgor Craffu Partneriaethau pwrpasol ym mis Mai 2011, mae'n bwriadu rhoi mwy o bwyslais ar graffu effeithlonrwydd partneriaethau wrth sicrhau canlyniadau dymunol ar gyfer trigolion lleol.

Hefyd, mae swyddogaeth graffu Sir Ddinbych yn awyddus i archwilio pa fanteision – ariannol ac eraill – y gallai'r Cyngor eu cael o ddarparu gwasanaethau drwy drefniadau partneriaeth amrywiol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# <u>ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL</u>

**Cyflwyniad**

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o’r Rhan honno’n ymwneud â’r gefnogaeth a roddir i aelodau o awdurdod lleol ac mae adran 5 o’r bennod honno’n cyfeirio at baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer yr aelodau hyn.

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 5(4) o’r Mesur. Mae’r canllawiau yn ymwneud â threfniadau awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol.

**Yr hyn sy’n ofynnol yn ôl y Mesur**

Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau lleol) sicrhau bod pob un o’u haelodau etholedig yn gallu llunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau fel aelod o’r cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae hyn yn cynnwys galluogi unrhyw aelod o weithrediaeth y cyngor i adrodd ar ei weithgareddau fel aelod o’r weithrediaeth. Rhaid i’r cyngor dan sylw gyhoeddi unrhyw adroddiadau y bydd aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn eu llunio.

Gall yr awdurdod lleol bennu amodau/terfynau ar yr hyn sy’n cael ei gynnwys mewn adroddiad.

Rhaid i’r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i’w drefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac wrth wneud y trefniadau hynny, rhaid iddo roi sylw i’r canllawiau hyn.

**Canllawiau**

<u>Dyletswyddau awdurdod lleol</u>

Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau sy’n galluogi ei aelodau i lunio adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ddweud wrth ei aelodau sut i’w llunio ac erbyn pryd i’w llunio. Mae’r Mesur, yn adran 8 a’r adrannau sy’n dilyn, yn nodi mai’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy’n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, fel y’u diffinnir yn adran 9. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i roi cymorth a chyngor i aelodau i’w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau, ac mae trefnu proses yr adroddiadau blynyddol yn perthyn i’r categori hwn. Mae’r Mesur yn atal y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd rhag rhoi cymorth a chyngor i aelod yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau gweithredol fel aelod o weithrediaeth. Er hynny, nid yw llunio adroddiad blynyddol yn swyddogaeth weithredol ynddi’i hun, hyd yn oed os yw’n cyfeirio at weithgareddau’r cynghorydd fel aelod o’r weithrediaeth.

Rhagwelir y bydd yr adroddiadau blynyddol cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2013 fan bellaf.

<u>Cyhoeddi adroddiadau</u>

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Disgwylir i'r awdurdod gynnwys dolen i adroddiadau blynyddol yr aelodau, o leiaf, a hynny ar y rhan honno o wefan yr awdurdod sy'n dangos manylion aelodau unigol. Nid oes disgwyl i'r awdurdod drefnu unrhyw gyhoeddusrwydd y tu hwnt i hyn, ac os yw'n penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd pellach i'r adroddiadau, dylai ofalu ei fod yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer pob aelod. Felly, os bydd aelod yn gofyn i awdurdod roi mwy o gyhoeddusrwydd i'w adroddiad, dylid gwrthod y cais hwnnw oni bai fod mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i adroddiad pob aelod.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau blynyddol a sut y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld.

<u>Cynnwys yr adroddiadau</u>

Prif bwrpas yr adroddiadau yw galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol.

Gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau. Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys. Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu. Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."

Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.

Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â rhai aelod arall neu aelodau eraill.

Awgrymir y dylid cynnwys yr eitemau safonol canlynol:

- Rôl a chyfrifoldebau – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- Gweithgarwch lleol – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- Prosiectau mawr – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Rhagfyr 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Blaen Raglen Waith** |

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch rôl y pwyllgor ac yn gofyn am ystyried materion y gellid eu hystyried yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Dyma gyfarfod cyntaf y pwyllgor hwn, ac felly credir ei bod yn briodol trafod cylch gwaith y pwyllgor a datblygu blaen raglen waith.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried eitemau gwaith i'r dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Yn ôl Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol benodi pwyllgor gwasanaethau democrataidd a'r pwyllgor hwnnw i gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn galendr. Mae'n rhaid i aelodau'r pwyllgor fod yn gynghorwyr a chaiff cadeirydd y pwyllgor ei benodi gan yr awdurdod (Cyngor).

4.2 Bydd y pwyllgor yn dynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd ac yn adolygu i ba raddau y mae'r awdurdod wedi darparu staff, llety ac adnoddau eraill digonol i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd (gan gynnwys cefnogi gwaith craffu, gweinyddu pwyllgorau a gwasanaethau i aelodau). Nid yw'r pwyllgor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y materion hyn, ond fe all drafod gyda phennaeth gwasanaethau democrataidd, y prif swyddog cyllid ac aelodau arweiniol perthnasol a chyflwyno adroddiadau ffurfiol ar y materion hyn i'r Cyngor llawn.

4.3 Mae manylion pellach i'w cael yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yn:
http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/statguide/;jsessionid=5CEC6D5A93138B287D377FAC8C3A1049?lang=en

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r materion dan sylw yn yr adroddiad hwn yn ofynion statudol ond byddai eu bwriad sylfaenol yn briodol i faes blaenoriaeth y Cyngor *Moderneiddio'r Cyngor i Sicrhau Effeithlonrwydd a Gwella Gwasanaethau i'n Cwsmeriaid.*

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau amlwg o ran costau neu effaith ar wasanaethau eraill yn codi o'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill, ac a gynhaliwyd Sgriniad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb?

Dim – bwriad yr adroddiad hwn yw cynorthwyo'r pwyllgor i ddatblygu rhaglen waith mewn cysylltiad gyda'i gylch gorchwyl statudol.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni chafwyd datganiad i'r adroddiad hwn.

## 9. Beth yw'r risgiau ac a ellir gwneud unrhyw beth i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau amlwg yn codi o drafod yr adroddiad hwn.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.